# Tîm Diogelu Oedolion
# Gweithdrefn Weithredu Safonol
# Rhoi gwybod i Dimau Diogelu Awdurdodau Lleol am Niwed Pwyso y gellid ei osgoi

**Crynodeb o'r ddogfen:**

Gweithdrefn sy'n amlinellu rôl y Tîm Diogelu Oedolion wrth adrodd am niwed pwyso y gellid ei osgoi sydd wedi digwydd yn yr Ysbytai Acíwt i'r Awdurdodau Lleol perthnasol.

**Cwmpas:**

Bwriedir i'r weithdrefn hon gael ei defnyddio gan Dîm Diogelu Oedolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae i'w defnyddio er gwybodaeth yn unig ar gyfer safleoedd ysbytai acíwt.

**I'w darllen ar y cyd â'r canlynol:**

Polisi Atal a Rheoli Briwiau Pwyso

Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion yng ngweithdrefn rhanbarth Gorllewin Cymru

# Cynnwys

Cwmpas .......... 3
Nod .......... 3
Amcanion .......... 3
Gweithdrefn .......... 3

# Cwmpas

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu gwaith Tîm Diogelu Oedolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o gofnodi ac adrodd ar achosion o niwed pwyso a drafodwyd mewn cyfarfodydd craffu, yn enwedig y rhai y bernir y gellid eu hosgoi o fewn y pedwar Ysbyty Acíwt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cyflwyno adroddiadau priodol i'r Awdurdod Lleol perthnasol, yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno gyda Bwrdd Diogelu Rhanbarthol CWMPAS, a fydd yn cael ei ddisodli gan y weithdrefn hon.

# Nod

Nod y ddogfen hon yw disgrifio proses a chyfrifoldeb Tîm Diogelu Oedolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gasglu gwybodaeth am niwed pwyso y gellid ei osgoi ar gyfer ei adrodd i'r Awdurdod Lleol perthnasol.

# Amcanion

- Darparu trosolwg o rôl y Tîm Diogelu Oedolion yn y broses graffu ar gyfer niwed pwyso
- Amlinellu'r broses ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth
- Amlinellu'r broses a ddefnyddir i hysbysu'r Awdurdod Lleol am niwed pwyso y gellid ei osgoi.

# Gweithdrefn

- Dylai staff y Bwrdd Iechyd adrodd am bob achos o niwed pwyso drwy ddefnyddio'r system adrodd digwyddiadau DATIX. Ymchwilir i'r digwyddiadau wedyn yn unol â chanllawiau Adrodd ac Ymchwilio i Friwiau Pwyso Cymru Gyfan, fel y nodir ym Mholisi Atal a Rheoli Briwiau Pwyso Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Y gwasanaeth perthnasol sy'n cwblhau'r ymchwiliad gan ddefnyddio'r Offeryn Adolygu Cymru Gyfan ar gyfer ymchwilio i Niwed Pwyso (a gynhwysir yn y canllawiau, ac sy'n rhan o'r cofnod DATIX). Mae hyn yn galluogi i dystiolaeth sy'n ymwneud ag asesiadau risg, offer, gwiriadau croen, adolygiadau a ffactorau sefydliadol i gael eu harchwilio, ac yn amlygu anghenion dysgu a chamau gweithredu adferol.

- Diffinnir niwed pwyso y gellid ei osgoi fel a ganlyn:
  *Mae "y gellid ei osgoi" yn golygu bod yr unigolyn sy'n derbyn gofal wedi datblygu briw pwyso ac na wnaeth y darparwr gofal un o'r canlynol: gwerthuso cyflwr clinigol yr unigolyn a ffactorau risg briwiau pwyso; cynllunio a gweithredu ymyriadau a oedd yn gyson ag anghenion a nodau'r unigolyn a safonau ymarfer cydnabyddedig; monitro a gwerthuso effaith yr ymyriadau; neu adolygu'r ymyriadau fel y bo'n briodol."* (Yr Adran Iechyd/Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, 2010 a ddyfynnir yng nghanllawiau Cymru Gyfan)

- Mae'n bosibl y bydd niwed pwyso y gellid ei osgoi yn awgrymu bod gofal wedi'i esgeuluso, ac felly mae angen rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol perthnasol, yn unol â'r rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cytuno â'r Awdurdodau Lleol i hwyluso'r gwaith o gyflwyno data am niwed pwyso y gellid ei osgoi heb yr angen i gyflwyno Ffurflenni Adrodd Diogelu Oedolion unigol ar gyfer pob achos unigol.

cyflwyno data difrod pwysau y gellir ei osgoi heb fod angen cyflwyno Ffurflenni Adroddiad Diogelu Oedolion unigol ar gyfer pob achos unigol.

- Mae polisi Adrodd ac Ymchwilio i Friwiau Pwyso Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn nodi y dylid sgrinio pob digwyddiad a nodir o niwed pwyso ar gyfer diogelu – mae'r sgrinio hwn wedi'i gynnwys yn Offeryn Ymchwilio i Niwed Pwyso Cymru Gyfan. Dylai digwyddiadau DATIX y tynnir sylw'r Tîm Diogelu Oedolion atynt (pan fydd y sawl sy'n ateb y cwestiwn ar ddiogelu yn dewis 'ydw' neu 'ddim yn gwybod') gael eu hadolygu gan ymarferwyr y Tîm Diogelu Oedolion. Wrth adolygu naratif y digwyddiadau y tynnir sylw atynt, mae angen i ymarferydd y Tîm Diogelu Oedolion ystyried p'un a oes unrhyw amgylchiadau eithriadol a fyddai'n awgrymu bod angen sgrinio ar gyfer diogelu ar unwaith yn hytrach nag aros am adolygiad fel rhan o'r broses graffu. Os yw hyn yn wir, bydd ymarferydd y Tîm Diogelu Oedolion yn cysylltu â'r arweinydd gwasanaeth o fewn y cofnod DATIX i ofyn am gwblhau'r offeryn sgrinio diogelu

- Bydd y tîm DATIX yn anfon adroddiadau misol DATIX Excel am niwed pwyso i'r Tîm Diogelu Oedolion. Mae'r rhain yn rhestru'r holl achosion o niwed pwyso a nodwyd i gael eu trafod mewn cyfarfodydd craffu sydd ar ddod.

Ar gyfer ysbytai acíwt, cynhelir cyfarfodydd craffu ar niwed pwyso o leiaf unwaith y mis ar gyfer pob safle a gwahoddir y Tîm Diogelu Oedolion i fod yn bresennol. Cyn y cyfarfod craffu, bydd y gwasanaeth wedi cwblhau Offeryn Adolygu Cymru Gyfan ar gyfer Ymchwilio i Niwed Pwyso; yn y cyfarfod cyflwynir a thrafodir y canfyddiadau, a chytunir ar ganlyniad anochel/anorfod.

- Dylai aelod y Tîm Diogelu Oedolion ynghyd ag aelodau eraill o'r panel ystyried yr wybodaeth a gyflwynir, gan roi sylw arbennig i'r pedwar cwestiwn a restrir isod yn Adran 6 o'r offeryn adolygu, er mwyn nodi p'un a oedd modd osgoi'r niwed pwyso, ac os oes unrhyw faterion diogelu posibl a allai olygu bod angen i Ffurflenni Adroddiad Diogelu unigol gael eu hanfon at yr Awdurdod Lleol yn ôl-weithredol. Dylai pob achos o niwed pwyso y gellid ei osgoi sbarduno cynllun gweithredu a dylai'r gwasanaeth gadw cofnod ohono ac o'r camau a gymerir.

## Cwestiynau Canlyniad Craffu:

1. A oedd ffactorau risg briwiau pwyso'r unigolyn wedi'u nodi ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd; ac a oedd niwed i'r croen yn cael ei gofnodi yn unol â pholisi a chanllawiau lleol?
2. A gafodd ymyriadau ataliol, a oedd yn gyson ag anghenion/nodau'r unigolyn a safonau ymarfer cydnabyddedig eu cynllunio a'u gweithredu?
3. A gafodd effeithiolrwydd yr ymyriadau ataliol ei werthuso a'i fonitro'n ddibynadwy?
4. A gafodd yr ymyriadau eu hadolygu ac a weithredwyd arnynt pan oedd newid i gyflwr clinigol neu groen yr unigolyn?

Os mai 'NA' oedd yr ateb i unrhyw un o'r uchod, ystyrir bod modd osgoi'r briw pwyso.

- Os na fydd aelod o'r Tîm Diogelu Oedolion yn bresennol yn y cyfarfod craffu, dylai Cadeirydd y panel craffu neu gynrychiolydd enwebedig anfon canlyniadau'r cyfarfod at y Tîm Diogelu Oedolion.

  Bydd y Tîm Diogelu Oedolion yn coladu'r data sy'n ymwneud â'r holl niwed pwyso y gellid ei osgoi mewn taenlen Excel. Mae hwn yn rhestru'r cyfeirnod DATIX, safle'r

ysbyty acíwt a'r ward ble digwyddodd y niwed pwyso; dyddiad y digwyddiad a dyddiad y cyfarfod craffu; lleoliad y niwed pwyso ar y corff a'r radd. Anfonir y daenlen at Arweinwyr Diogelu Oedolion yr Awdurdod Lleol perthnasol, ac os yw'n briodol, bydd naratif byr hefyd yn cael ei gynnwys. Cwblheir hyn yn chwarterol.

- Bydd adroddiad chwarterol hefyd yn cael ei lunio i'w gyflwyno i Grwpiau Gweithredol Lleol aml-asiantaeth); bydd yr adroddiad yn ymgorffori siart o ddata pob ysbyty ar gyfer pob chwarter i'w cymharu ynghyd â naratif i ddisgrifio a dehongli'r data.

- Er mwyn derbyn sicrwydd am y broses sydd wedi'i hymwreiddio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac y cytunwyd arni gyda phartneriaid Awdurdodau Lleol, gall yr Awdurdodau Lleol wneud cais am archwiliad o achosion o niwed pwyso y gellid ei osgoi y rhoddwyd gwybod iddynt amdanynt. Ar gyfer archwiliadau blaenorol mae pob Awdurdod Lleol wedi dewis dau rif DATIX o'r flwyddyn flaenorol; Mae Sir Gaerfyrddin wedi cynnwys dau yr un o Ysbyty Tywysog Philip ac Ysbyty Cyffredinol Glangwili.

- Dylai'r Tîm Diogelu Oedolion anfon rhifau DATIX a cheisiadau am wybodaeth at Bennaeth Nyrsio'r Ysbyty Acíwt perthnasol yn gofyn i'r gwasanaeth ddarparu tystiolaeth o drafodaeth mewn cyfarfodydd craffu, cynlluniau gweithredu a thystiolaeth eu bod wedi rhoi cynlluniau gweithredu ar waith yn ymwneud â'r achosion a nodwyd. Wedi hyn, caiff adroddiad ei lunio, ei adrodd yn ôl i Benaethiaid Nyrsio'r Ysbytai Acíwt a'i gyflwyno yng nghyfarfod y Grŵp Darparu Gwasanaethau Acíwt. Y cam nesaf yw ei anfon at Arweinwyr Diogelu Oedolion yr Awdurdod Lleol. Ar ddiwedd y broses, bydd adroddiad hefyd yn cael ei rannu â'r Grwpiau Gweithredol Lleol aml-asiantaeth.

- Caiff yr holl ddata sy'n ymwneud â niwed pwyso y gellid ei osgoi ei storio gan y Tîm Diogelu Oedolion yn y gyriant cyffredin Diogelu Oedolion mewn ffolder o'r enw 'Niwed Pwyso'.

## Cyfeiriadau


Adrodd ac Ymchwilio i Friwiau Pwyso Cymru Gyfan – Canllawiau Cymru Gyfan 2018
Ar gael yn:
https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/welsh-health-circular-on-revised-pressure-ulcer-reporting-including-the-reporting-of-serious-incidents.pdf

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Ar gael yn:
https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents

Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
Ar gael yn:

https://www.diogelu.cymru/cy/